Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llangybi**

**Ysgol Gynradd Llangybi**
**Llangybi**
**Pwllheli**
**LL53 6DQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/05/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cylch Meithrin Llangybi

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Llangybi |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Cofrestriad Newydd – Tachwedd 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

Gwrandewir ar y plant a chaiff yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud ei barchu. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn cydchwarae'n hyderus. Maent yn dysgu sut i ryngweithio ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Mae'r plant yn dechrau gwneud pethau drostynt eu hunain a chânt gyfleoedd i ddatblygu sgiliau gwahanol. Mae'r staff yn deall eu rôl o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn annog rhyngweithio cadarnhaol ac yn darparu gofal magwrus i'r plant. Mae'r staff yn cynllunio gwahanol weithgareddau sy'n addas ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant, ac maent yn adnabod y plant yn dda. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth weithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall gweithdrefnau diogelwch y gwasanaeth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni, maent yn cynnig cymorth i'r staff yn eu rolau ac maent yn ymrwymedig i wella arferion er budd y plant.

Mae'r plant yn barod i ddewis yr hyn maent am chwarae ag ef ac maent yn mwynhau archwilio. Mae rhai yn gofyn am gael stori ac yn eistedd gyda'r staff i wrando arni. Y plant sy'n penderfynu lle hoffent eistedd i gael eu byrbryd ac mae'r staff yn parchu eu dewisiadau, gan ddangos bod gan y plant lais y gwrandewir arno.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus wrth eistedd neu chwarae gyda'u ffrindiau a'r staff. Mae rhai wrth eu bodd yn chwarae yn yr awyr agored, gan fwynhau'r awyr iach, ond mae'n well gan eraill chwarae dan do. Daw'r plant atom yn hyderus i ddangos beth maent yn ei wneud, gan bwyntio'n falch at lun ohonynt eu hunain ar yr iPad yn gwneud cacennau, gan ddweud 'fi yn gwneud cakes'.  Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff, a byddant yn troi atynt am dawelwch meddwl neu i ofyn am rywbeth i chwarae ag ef.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda am eu hoedran, er enghraifft, maent yn ciwio'n dda un ar ôl y llall pan fo'n amser golchi dwylo cyn bwyta eu cinio. Maent yn garedig i'w gilydd gan rannu pêl wrth chwarae gyda ffrind yn yr awyr agored. Mae'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau a, phan ofynnir iddynt, yn glanhau eu dwylo cyn bwyta eu byrbryd.

Mae'r plant yn weithgar ac yn dysgu drwy chwarae. Er enghraifft, mae pawb yn wên o glust i glust ac yn llawn hwyl wrth chwarae yn yr awyr agored. Maent yn esgus bod rhywbeth dychrynllyd yn y pwll o ddŵr ac yn rhedeg i mewn i'r adeilad i nôl conau traffig i'w rhoi dros y pwll. Maent yn reidio beiciau a sgwteri ac yn rhoi detholiad o anifeiliaid fferm ar foncyff yn ofalus i'w gwylio'n chwarae. Mae rhai o'r plant yn mwynhau ffitio siapiau a chyfateb lliwiau ar y bwrdd mathemateg ac mae eraill yn chwarae gemau ar yr iPad.

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn teimlo'n gartrefol â'r drefn feunyddiol. Maent yn mynd i nôl eu bagiau i fynd i'r ffreutur amser cinio ac yn eistedd gyda'i gilydd yn y tŷ bach twt y tu allan, gan chwerthin wrth iddynt feddwl am gêm i'w chwarae. Mae eu sgiliau iaith yn datblygu'n dda drwy'r sgyrsiau niferus a gânt â'i gilydd a'r staff.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach; maent yn dweud wrthym beth y byddent yn ei wneud pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Maent yn glanhau eu dwylo'n rheolaidd wrth ofalu am y plant ac yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i dreulio amser yn yr awyr agored. Mae gan ddigon o'r staff gymhwyster cymorth cyntaf pediatrig a all helpu i roi cymorth cyntaf sylfaenol. Mae'r staff yn cadw cofrestrau presenoldeb dyddiol cywir ac yn ymarfer gadael yr adeilad mewn argyfwng drwy gynnal ymarferion tân – cafodd yr un olaf ei gynnal ym mis Medi 2020. Mae'r staff yn egluro eu gweithdrefnau ar gyfer newid cewynnau, sy'n unol â'r canllawiau cyfredol. Ni fu angen cofnodi damwain, digwyddiad na meddyginiaeth ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru.

Mae'r staff yn wirioneddol garedig tuag at y plant ac yn siarad â nhw ar eu lefel ac â pharch. Maent yn dangos cwrteisi, gan ddiolch i'r plant pan gânt eitem chwarae, ac maent yn atgoffa'r plant i rannu neu i gymryd gofal mewn ffordd dawel fach. Mae'r staff wedi cyflwyno gweithgaredd lle gall y plant fynegi eu hemosiynau; mae hyn yn galluogi'r grŵp cyfan i drafod y teimladau hynny ac i'r staff fod yn ymwybodol o hwyliau'r plant y diwrnod hwnnw. Disgrifia'r staff y gweithdrefnau sydd ar waith i reoli'r rhyngweithio, sy'n unol â pholisi'r gwasanaeth.

Mae gan y staff wybodaeth dda am y cyfnod sylfaen ar gyfer chwarae a dysgu, ac maent yn cynllunio gweithgareddau dyddiol sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Cedwir cofnodion o ddatblygiad y plant a chedwir enghreifftiau lliwgar o waith y plant yn eu llyfrau unigol. Mae'r staff yn ymatebol, gan sicrhau eu bod wrth law i helpu'r plant i ddod o hyd i rywbeth neu i sychu trwyn sy'n rhedeg. Mae'r staff a'r plant yn hapus yng nghwmni ei gilydd ac maent yn wên o glust i glust drwy gydol y sesiwn. Maent yn ymgysylltu'n dda â'r plant; er enghraifft maent yn siarad â nhw am eu teuluoedd ac yn sicrhau bod pob un o'r plant yn gyfforddus cyn cael stori.

| Yr Amgylchedd | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
| --- | --- |

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac na all neb ddod i mewn heb awdurdod. Er enghraifft, gofynnwyd i ni ddangos prawf adnabod a llofnodi'r llyfr ymwelwyr. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel drwy gwblhau asesiadau risg. Gwnaethom gynnal ein hasesiad risg ar garreg y drws o ran COVID-19 a ddangosodd fod gan y staff systemau ar waith i gadw'r plant a nhw eu hunain yn ddiogel.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Er mwyn lleihau'r risg o heintiau posibl, mae amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar y gellir eu cadw'n lân yn hawdd ar gael i'r plant yn feunyddiol. Mae'r amgylchedd yn groesawgar i'r plant gan ei fod yn olau, a chaiff gwaith y plant a lluniau ohonynt eu harddangos ar y waliau, gan greu ymdeimlad o berthyn. Mae celfi fel byrddau a chadeiriau lefel isel yn galluogi'r plant i fwyta gyda'i gilydd neu gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Mae ardal chwarae awyr agored gaeedig a dan glo, y gellir mynd iddi yn syth o ystafell chwarae ddynodedig y plant yn yr ysgol gynradd, yn galluogi'r plant i ddewis ym mha ardal y maent am chwarae yn ystod rhan o'r sesiwn.

Mae'r teganau a'r cyfarpar yn ddigonol ac yn addas i oedrannau a chamau datblygu'r plant. Er enghraifft, mae ardaloedd tawel a chyfforddus i ymlacio ynddynt a darperir adnoddau sy'n tanio'r dychymyg, fel y tŷ bach twt yn yr awyr agored. Mae deunyddiau gwahanol yn galluogi'r plant i fod yn greadigol ac maent wedi gwneud enfys liwgar gan ddefnyddio eu holion dwylo wedi'u paentio wedi'u torri allan o bapur.

## Arwain a Rheoli — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gweithio gyda sylw a gofal dyledus ar y cyfan er mwyn cyrraedd y safonau gofynnol a'r rheoliadau. Cafodd y datganiad o ddiben ei ddiwygio yn ystod yr arolygiad ac mae bellach yn nodi'n gliriach y gwasanaeth a ddarperir. Cadarnha'r arweinwyr fod staff sy'n meddu ar y cymwysterau addas wedi'u cyflogi i ofalu am y plant ac i weithredu polisïau a gwaith papur Mudiad Meithrin, a chynigir gwasanaeth Cymraeg i'r rhai sydd ei angen. Mae angen i'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth sicrhau bod cofnod ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno o fewn 24 awr i hysbysu tîm diogelu plant lleol y gwasanaethau cymdeithasol am fater.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn deall yr angen i gwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal o fewn 12 mis i agor. Ymhlith y gwelliannau a rannwyd hyd yma mae prynu adnoddau newydd i ymestyn profiadau chwarae a dysgu'r plant fel y gegin fwd a'r blwch tywod. Roedd y rhieni yn gadarnhaol am ofal eu plentyn, gan ddweud bod y gwasanaeth yn wych, ac nad oedd angen i'r cylch wella unrhyw agwedd yn eu barn nhw.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Maent yn annog y staff i gael hyfforddiant sy'n berthnasol i ofal y plant, cwblheir rhaglen sefydlu ar gyfer staff newydd, a chefnogir y staff drwy gyfarfodydd 'rhithwir' rheolaidd. Dywed y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth a bod yr unigolyn cyfrifol yn eu cefnogi'n dda. Cadarnha'r wybodaeth ysgrifenedig a gafwyd yn ystod y broses arolygu oddi wrth yr unigolyn cyfrifol fod gan y staff y gwiriadau gofynnol o ran eu haddasrwydd ar ffeil, gan gynnwys tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Er enghraifft, gall y rhieni ddefnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol preifat er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth, neu i weld beth mae eu plentyn wedi bod yn ei wneud. Mae'r rhieni yn rhannu gwybodaeth ysgrifenedig a llafar berthnasol am eu plentyn gyda'r staff cyn i'w plentyn ddechrau fel bod y staff yn gallu darparu'r gofal sydd ei angen ar bob plentyn. Mae dau arweinydd y gwasanaeth hefyd yn rhan o dîm staff yr ysgol, felly ceir cyfnodau pontio cadarnhaol rhwng y cylch a'r ysgol, am fod y plant nid yn unig yn gyfarwydd â'u gofalwyr yn y dyfodol, ond hefyd ag amgylchedd yr ysgol.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Dylid cynnal ymarferion tân bob 6 mis o leiaf, gan gydnabod bod plant yn cael budd o ymarfer y gweithdrefnau'n amlach.

A2. Mae angen i'r staff gyflwyno cofnod ysgrifenedig i dîm diogelu plant yr awdurdod lleol o fewn 24 awr i'w hysbysu am fater.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
| --- |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/07/2021